




Y Crwban a'r Ysgyfarnog






twinkl
Quality Standard Approved

Unwaith, roedd ysgyfarnog yn brolio am ba mor gyflym yr oedd yn gallu rhedeg.



Wedi blino clywed yr ysgyfarnog yn brolio, heriodd y crwban ef i ras.







Daeth holl anifeiliaid y goedwig i wylio'r ras.



Dechreuodd yr ysgyfarnog rhedeg i lawr y ffordd, ond o fewn eiliadau pwysodd yn erbyn coeden i orffwys.



"Sut wyt ti'n disgwyl ennill y ras yn cerdded mor araf, araf?" gwaeddodd yr ysgyfarnog i'r crwban.




twinkl
Quality Standard Approved


Gorweddodd yr ysgyfarnog i lawr a syrthiodd i gysgu, "Mae digon o amser i ymlacio", meddyliodd.




Cerddodd a cherddodd y crwban. Nid oedd eisiau rhoi'r gorau i'r ras nes iddo gyrraedd y llinell gorffen.



Calonogwyd y crwban mor uchel gan yr anifeiliaid nes i'r ysgyfarnog deffro!



Cododd yr ysgyfarnog, ac ar ôl ymestyn a dylyfu gên, dechreuodd redeg unwaith eto, ond roedd e'n rhy hwyr. Roedd y crwban wedi croesi'r llinell gorffen.



Felly, ar ôl hynny, atgoffodd yr ysgyfarnog ei hun, "Dim mwy o frolio am fy nghyflymder fel mellten, araf, araf enillodd y ras!"

